

Pwyllgor Ieuenctid Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP).

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar-lein 26/4/22 am 6.00pm

Aelodau'r Pwyllgor Ieuenctid oedd yn bresennol yn y cyfarfod: Libby 7/6 , Noah 6/6, Jemma 6/6, Joel 9/10, Seb 4/4, Charlie 6/6, Sarah 8/

Hwyluswyr: Tom M 8.5/9, Graham 8/8

Ymwelwyr: Amhriodol

Ymddiheuriadau : Beccs

Materion a drafodwyd

Eitem ar yr Agenda	Trafodaeth	Camau Gweithredu
1	Croeso a chyflwyniadau / Mewn-gofnodi ac allan-gofnodi fel uchod mewn cromfachau	
2	<p>Diweddariad:</p> <p><u>Pobl ifanc:</u></p> <p>Noah Teens Matter Pembs – gyda chymorth Demi a Sara – trefnwyd noson i gydnabod llwyddiant pobl ifanc (11 – 18) yn Neuadd y Dref Penfro ar y 1af Orffennaf. Gobeithio ffurfio hyn yn sefydliad di-elw. 7 gwobr unigol.</p> <p>Gall aelodau'r Pwyllgor Ieuenctid / staff y Parc enwebu pobl.</p> <p>Gellir gweld a fyddai pobl yn dymuno enwebu Parcmyr / Pwyllgor Ieuenctid.</p> <p><u>Y Parc Cenedlaethol :</u></p> <ul style="list-style-type: none">- Ymgynghori ar yr ad-drefnu sydd ar y gweill.- Timau Microsoft yn cael ei gyflwyno ledled yr Awdurdod ddydd Gwener nesaf.- Toms yn gadael (2 flynedd o secondiad) – yn parhau i fod yn wirfoddolwr gyda'r Parcmyr / Pwyllgor Ieuenctid. <p><u>Y Gwasanaeth Ieuenctid :</u> Dim Diweddariad.</p>	<p>Tom – yn awgrymu y gellid ceisio cymorth gan PAVS / Gwasanaeth Ieuenctid ar Iechyd a Diogelwch / Diogelu / yswiriant ac ati – cytunodd Graham y gallai roi cyngor.</p> <p>Sarah H – bydd yn gofyn i Pure West Radio a allent gynorthwyo gan ei bod yn gweithio iddynt.</p>
3	Materion yn codi (o gyfarfod blaenorol y Pwyllgor / Gweithgor Ieuenctid).	

	<ul style="list-style-type: none"> • Llysgenhadon Hinsawdd Ieuentid – mynd ar drywydd cysylltiadau pellach. • Cysylltiadau Cynulliad Ieuentid – Y Camau Nesaf... Tom heb glywed yn ôl gan CYPRO. • Teithio Llesol / Trafnidiaeth i Bobl Ifanc. <p>Tom i wahodd Anthony Richards a Matt Cloud i gyfarfod yn y dyfodol i siarad am Hawliau Tramwy a mesurau hyrwyddo i bobl ifanc.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amcanion Llesiant APCAP – rhoi rhywfaint o adborth – nid oedd modd i hyn ddigwydd ar y diwrnod Graffiti. Y ffenestr bellach ar gau. 	
4	<p>Capasiti aelodau'r Pwyllgor Ieuentid</p> <p>Trafodaeth hir ar gapasiti'r aelodau oedd yn bresennol ar hyn o bryd:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Yn gyfyngedig ar y cyfan – Arholiadau / adolygu / gwaith cwrs / swyddi newydd. - Cynigiwyd y dylid peidio â chychwyn ar weithgaredd newydd nes cael mwy o gapasiti (yn ddiweddarach fis Mehefin?). 	<p>Tom i gyflwyno hyn i'r rhai nad oedd yn bresennol ar Basecamp / Facebook ac ati.</p>
5	<p>Addasiad Arfordirol Niwgwl – Adborth o Ddiwrnod Ymgysylltu Fforwm Arfordir Sir Benfro 12 Ebrill yn Niwgwl</p> <ul style="list-style-type: none"> - Pawb wedi mwynhau'r diwrnod / yn ddefnyddiol ac yn addas iawn i'r Pwyllgor Ieuentid. - Wedi ôl-ystyried y diwrnod pobl ar y cyfan yn cytuno â'r safbwyntiau a gofnodwyd gan Jemma ar y diwrnod <p>Tom i ddsbarthu'r ffurflenni a'r lluniau gan y ffotograffydd Tess Seymour.</p>	<p>Bydd Jemma yn casglu'r nodiadau o'r diwrnod a'u hanfon at y Fforwm ac at Tom.</p>
6	<p>Y Prosiect graffiti</p> <p>Y tri bwrdd 8'x4' a ddechreuwyd gan y Pwyllgor Ieuentid fis diwethaf ac a gwblhawyd gan Lloyd y Graffiti ac a farneisiwyd gan Tom. Dal angen ychwanegu geiriau (gan Dylan APCBB).</p>	<p>Tom i gysylltu eto â Dylan APCBB am y geiriad!</p>



Angen penderfyniad ar y camau nesaf – yr awgrymiadau oedd:

1. Hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifanc anfon lluniadau / lluniau o weithgareddau cadarnhaol yn y dirwedd drwy ddatganiad i'r wasg / digwyddiadau cymdeithasol ac ati, yna glynu'r deunydd ar y bwrdd / farneisio ac annog ysgolion / clybiau ieuenctid / lleoliadau eraill gan gynnwys y Parc Cenedlaethol i gynnal a rhedeg gweithgareddau ymgysylltu ar gyfer eu disgyblion.
2. **Ceisio cael byrddau mewn i ysgolion / clybiau ieuenctid / lleoliadau eraill gan gynnwys y PC ac i'r staff annog pobl ifanc i ymgysylltu drwy ychwanegu ffigurau sy'n cael eu casglu a'u dogfennu / gwobr o bosibl. Adnodd y gellir ei aildefnyddio ...**

Opsiwn 2 a ffafriwyd gan bawb, hefyd cytunwyd â'r canlynol:

- Yn debygol o gael mwy o bethau yn ôl / da o beth yw cael mwy o bobl i gymryd rhan mewn gwneud y lluniau / bydd mwy o ddeunydd rhyngweithiol yn glynu'n well.
- Targedu ysgolion uwchradd / colegau er y byddai dangos i ystod eang o oedran yn beth da.
- defnyddio fideo Noah ynghyd â fideo arall / cynllun gwera a awgrymir / Maniffesto Ieuenctid Sir Benfro fel pecyn adnoddau.
- Gofyn am gyngor gan y Tîm Darganfod ar helpu i gael hyn i mewn i'r ysgolion.
- Cododd Graham y materion logistaidd - bydd hyn yn her i gludo'r deunydd ac felly ni fydd yn cyrraedd llawer o leoedd mewn cyfnod byr.
- Tom - gofynion cyllidwyr – bydd angen adroddiad y Banc Ieuenctid tua mis Hydref drwy CYPRO.

Dilyn opsiwn 2.

Y Pwyllgor Ieuenctid i orffen y pecyn adnoddau – broliant / fideo ac ati.

7	<p>Datblygu Pwyllgor Ieuenctid – Parciau Cenedlaethol Cymru / Parciau Cenedlaethol y DU / camau nesaf / ffyrdd o weithio (gan gynnwys y Cod ymddygiad ar gyfer cyfarfodydd ar-lein a wyneb yn wyneb) / Europarc / Ieuenctid+ ac ati</p> <p>Rhoddodd Tom y newyddion diweddaraf am y sgwrs gyda staff Datblygu Ieuenctid newydd Brycheiniog ac Eryri – cyfle gwirioneddol ar gyfer cydweithio gyda’r Ieuenctid yn y ddau Barc Cenedlaethol arall yng Nghymru. Bydd peth amser cyn y bydd y ddau yn gweithio’n llawn. Mae’r ddau yn hoffi model Sir Benfro - mae’n debygol y byddant yn sefydlu gweithgaredd tebyg i Barcmyn Ieuenctid ac wedyn yn edrych ar Bwyllgorau Ieuenctid.</p> <p>Roedd trafodaeth am gapasiti pobl ifanc ar hyn o bryd yn awgrymu bod angen rhoi’r gorau i’r newidiadau hyn am rai misoedd gan fod pawb mor brysur – gweler eitem 4 uchod.</p>	<p>Cynnal cysylltiadau ag APCBB ac APCE</p> <p>/ Llais Ieuenctid PCDU / Europarc</p> <p>Ceisio edrych ar y Cod Ymddygiad cyn gynted â phosibl</p> <p>Ailymweld ddiwedd Mehefin</p>
8	<p>Ras Gyfnewid Baton Cymanwlad y Frenhines – digwyddiad yng Nghastell Henllys 1af Gorffennaf – angen bod yno 8.45am – tua 10.00</p> <p>Eglurodd Tom nad oedd y cynnig cychwynnol gan drefnwyr y Ras Gyfnewid o gynnal Dadl ar Newid Hinsawdd gyda Tegryn / Prif Weithredwr CSP Will Bramble yn ymarferol mewn gwirionedd o fewn yr amserlen ar gyfer y diwrnod a’i fod wedi herio hyn ar y sail nad oedd gweithgaredd o’r fath yn cyd-fynd â nodau’r Pwyllgor Ieuenctid o ymgysylltu ystyrlon. Yn lle hynny roedd cyfle i aelodau’r Pwyllgor Ieuenctid fynychu a chefnogi cludwyr y baton o’r ysgol leol - gyda’r posibilrwydd o gael rhywfaint o gyhoeddusrwydd drwy’r BBC ac ati. Angen cadarnhau’r enwau yr wythnos hon.</p> <p>Prin fydd y cyfleoedd ar y diwrnod oherwydd gwrthdaro â’r coleg ac ati – Joel / Seb / Jemma â diddordeb.</p> <p>Cadarnhaodd Graham y gall APCAP gynnig cludiant.</p>	<p>Tom i ymestyn y cynnig i eraill drwy’r Basecamp / Facebook ac ymateb yr wythnos hon.</p>
9	<p>Unrhyw Fater Arall</p> <p>Instagram – Y Pwyllgor Ieuenctid yn anfoddog â’r modd y mae’r gallu i bostio ar Instagram yn gweithio ar hyn o bryd:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Y system gyflwyno bresennol drwy Tom / Medi / Nid yw hyn yn cyflwyno gwybodaeth ar amser real yn y modd y mae pobl ifanc yn defnyddio Instagram. 	<p>Bydd Tom yn tynnu sylw at y teipio.</p> <p>Codi’r mater gydag E-gyfathrebu.</p> <p>Sarah H i ymchwilio i’r materion.</p>

	<ul style="list-style-type: none"> - Er y gellir deall y rhesymau dros ddiogelu hygrychedd, cwestiynir a ellir cyfiawnhau gwaharddiad llwyr ar ddefnyddio emojis? - Cymhelliant bron yn sero o ganlyniad. - Ystyried sefydlu cyfrif eich hun beth bynnag. - (pwynt bach) Angen cywiro'r teipio mewn postiad yn ddiweddar. 	
8	<p>Dyddiad y cyfarfodydd nesaf:</p> <p>Mai 10^{fed} - Pwyllgor Ieuentid</p> <p>24^{ain} Mai - Gweithgor y Pwyllgor Ieuentid</p>	
	Allan-gofnodi mewn cromfachau uchod.	

Agenda'r cyfarfod nesaf / yn y dyfodol i gynnwys:

- Tom i wahodd Anthony Richards a Matt Cloud i gyfarfod yn y dyfodol i siarad am Hawliau Tramwy a mesurau hyrwyddo i bobl ifanc.
- Pwyllgor Ieuentid i wneud fideos i gwblhau'r rhai a ddechreuwyd gan Dave Welton ar ddiwrnod Niwgwyl / ychwanegu at becyn adnoddau'r prosiect Graffiti.
- Cwrdd â gofynion cyllidwyr y Banc Ieuentid ar gyfer y prosiect Graffiti.
- Datblygu'r Pwyllgor Ieuentid ac ati.